

**Cofnodion cyfarfod misol Cyngor Cymuned Llanddona a gynhaliwyd Medi 21 ain
2022 am 7.30 o'r gloch.**

**Minutes of Llanddona Community Council monthly meeting held on 21st
September 2022 7.30pm**

Presennol/Present - Cadeirydd Maldwyn Williams, Barbara Williams, Tony Jones, Harri Owen, Dilys Williams, a Geraint Parry (Clerc / Clerk)

1. **Ymddiheuriadau/Apologies** - Mark Griffiths, Rhian Hughes, Gwennan Hughes, Alun Roberts, Carwyn Jones a Gary Pritchard.
2. **Cofnodion/Minutes** - Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 24ain o Awst fel rhai cywir gan Tony Jones, eiliwyd gan Barbara Williams / *Minutes of the previous meeting held on 24th August were accepted as accurate by Tony Jones, seconded by Barbara Williams.*
3. **Datgan diddordeb rhagfarnol / Declaration of prejudicial interest**
Dim diddordeb i ddatgan / *No declaration of interest*
4. **Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes**
 - 4.1 Meinciau'r Pentref – yn dilyn ymweliad safle ar 3/09/22, roedd hi'n amlwg bod y 3 meinciau angen gwaith cynnal a chadw, Clerc i edrych i mewn i'r hyn sydd ar gael. / *Village Benches - Following a site visit on 3/09/22, it was evident that the 3 benches required maintenance work, Clerk to look into what is available.*
 - 4.2 De-Fib ar gyfer Lolfa Maes Gwyn - eglurodd y Clerc bod ein cais yn llwyddiannus. Clerc i ymgynghori gydag Ambiwlans Gogledd Cymru er mwyn cael manylion prynu / *De-Fib for Maes Gwyn Lounge - the Clerk explained that our application was successful. Clerk to consult with North Wales Ambulance in order to obtain purchasing details.*
 - 4.3 Dywedodd y Clerc fod wedi cofrestru ar gyfer y Cod Hyfforddiant Ymddygiad ar 20/10/22 @ 6:30pm / *Clerk stated that he has registered for the Code of Conduct Training on 20/10/22 @ 6:30pm*
5. **Adrodd gan y Cynghorwr Sir – Alun Roberts / Report by County Councillor - Alun Roberts**
 - 5.1 Cais cynllunio Tan Rhallt Bach yn mynd i bwyllgor / *Tan Rhallt Bach planning application is going to committee.*
 - 5.2 Pryder mawr am y sefyllfa ariannol o fis Ebrill 2023 - mae pethau'n edrych yn ansicr iawn / *Extremely concerned about the financial situation from April 2023 – things look very uncertain.*
 - 5.3 Mae Stenna wedi prynu hen safle Rio Tinto i'w ddatblygu / *Stenna has purchased the old Rio Tinto site for development.*
 - 5.4 Wedi derbyn pryder niferus am doriadau i wasanaethau Arriva / *Have received numerous concern regarding cutbacks to Arriva services*
 - 5.5 Wedi cael y pleser o fynd gyda rhwyfwyr Biwmares i Lundain yn ddiweddar fel teyrnged i'r diweddar Frenhines / *Had the pleasure of going with the Beaumaris rowers recently to London as a tribute to the late Queen*
6. **Cofeb / Memorial – Capel Peniel**
 - 6.1 Esboniodd y Clerc fod cais Rhyddid Gwybodaeth wedi cael ei gyflwyno i Eglwys Cymru, ond gan fod hwn yn sefydliad preifat, nid yw'r rheolau'n berthnasol. Er hynny fe wnaeth y sefydliad gytuno i gynorthwyo gyda'r cais / *The Clerk explained that an FOI request has been submitted to the Church of Wales, but as this a private organisation, the rules do not apply. However the organisation did agree to assist with the request.*
 - 6.2 Trafod y gweithredoedd a'r pwy oedd y tiffeddiannwr gwreiddiol / *Discussed the deeds and the who was the original landowner.*

6.2 Nodwyd bod y gwaith ar y wal o amgylch yr cofeb wedi stopio. Clerc i holi / *It was noted that the work on the wall around the monument has stopped. Clerk to enquire.*

7. Traeth / Beach

7.1 Yn dilyn trafodaethau, pwysleisiwyd bod y Cyngor Cymuned yn awyddus i gynnal y cyfathrebu gyda'r grŵp lleol. Yn dilyn cais diweddar gan y Cyngor Cymuned at y Cyngor Sir er mwyn symud ymlaen, ni dderbyniwyd ateb hyd yma / *Following discussions, it was emphasised that the Community Council is keen to maintain communication with the local group. Following a recent request by the Community Council to the County Council in order to move forward, no reply has been received to date.*

8. Cae Chwarae / Playing Field

8.1 Yn dilyn cyfarfod safle ar y 3/09/22, cytunodd Cyng. M Griffiths i brynu'r deunyddiau gofynnol i drwsio'r ffens. Mae'r gwaith bellach wedi'i gwblhau / *Following the site meeting on the 3/09/22, Clr M Griffiths agreed to purchase the required materials to repair the fence. The work is now complete.*

9. Llwybrau Cyhoeddus / Public Footpaths

9.1 Clerc i gysylltu â'r contractwr er mwyn torri'r llwybrau cyhoeddus lleol o amgylch y pentref / *Clerk to contact the contractor in order to cut the local public footpaths around the village.*

9.2 Tyn Llain - Mae Clerc wedi cysylltu â SP Energy ynglŷn â'r llwybr troed, dim ateb hyd yma / *Tyn Llain - Clerk has contacted SP Energy regarding the footpath, no reply to date.*

10. Cwlwm Seiriol

10.1 Nodwyd nad oedd Delyth Philips yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod hwn / *It was noted that Delyth Philips was unable to attend this meeting*

11. Ceisiadau Cynllunio / Planning Applications

11.1 FPL/2022/227 – Mynydd Crafoed, Llanddona - cais llawn ar gyfer codi annedd – dim gwrthwynebiad / *Full application for the erection of a dwelling – no objection.*

11.2 HHP/2022/272 – Hen Felin Uchaf, 3 Hen Felin, Llanddona – cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu – dim gwrthwynebiad / *Full application for alterations and extension – no objection*

Penderfyniad Cynllunio / Planning Decisions

Dim penderfyniad cynllunio / *No planning decisions*

12. Cyfrifon / Accounts

Cytunwyd yn unfrydol i dalu'r canlynol / *It was unanimously agreed to pay the following:-*

12.1 Cyflog y Clerc / *Clerk Salary* - £618.36

12.2 HMRC - £124.40

12.3 Howells Tree Services - Cynnal Mynwent y Plwyf / *Community Cemetery Maintenance* - £100.00

Incwm / Income

12.4 Fynwent y Plwyf / *Community Cemetery* - £430.00

12.5 Precept - £2,833.33

12.6 Taw / *Vat* - £1,355.70

13. Gohebiaeth / Correspondence

13.1 Cyfarfodydd Fforwm Cyswllt Tref a Chymunedau'r Cyngor Sir / *Town & Community Council Liason Forum meeting 22/09/22 @ 6:30pm*

13.2 Newyddlen Pwyllgor Safonau / *Standards Committee Newsletter*

13.3 Prosiect Cwlwm Seiriol / *Cwlwm Seiriol Project*

- 13.4 Llyfr Cydymdeimlo ar gyfer y Frenhines / *Book of Condolence for the Queen*
13.5 Hyfforddiant Un Llais Cymru – Medi / *One Voice Wales training – September*
13.6 Defib

14. UFA / AOB

- 14.1 Yn dilyn cais am drwydded priodas, fe gafodd wybod bod Ysgol Sul Llanfihangel yn anghofrestredig / *Following a request for a wedding license, it was discovered that Llanfihangel Sunday School is unregistered.*
- 14.2 Trafodwyd yn gryno'r gŵyn ynghylch Grugfa. Clerc i gael rhagor o wybodaeth / *Discussed briefly the complaint regarding Grugfa. Clerk to obtain further information.*
- 14.3 Adroddwyd bod traffig yn mynd trwy'r Pentref yn gyflym ar adegau. Clerc i gysylltu â'r adran Briffyrdd am opsiynau tawelu cyflymder / *It was reported that traffic pass through the Village at speed on occasions. Clerk to contact the Highways department for speed calming options.*
- 14.4 Gofynnodd y Clerc am fynychu hyfforddiant Un Llais Cymru, pawb yn gytûn / *Clerk requested to attend OVW training, all in agreement.*
- 14.5 Codwyd pryder gan ffermwr lleol o dŵr glaw sydd yn llifo o'r ffordd i mewn i'r cae yno. Clerc i gael y lleoliad / *Concern was raised by a local farmer of rain water flowing from the road into there field. Clerk to obtain the location.*
- 14.6 Nodwyd bod y gwaith wedi dechrau ar safle Pen y Bont / *It was noted that work has started on the Pen y Bont site.*
- 14.7 Esboniodd Clerc y prif bwyntiau a godwyd yn dilyn Fforwm Cyswllt y Cyngor Sir ar 8/09/22 / *Clerk explained the main points raised following Liason Forum on 8/09/22.*
- 14.8 Trafodwyd materion ynglŷn ag Eglwys Llaniestyn / *Discussed matters relating to Llaniestyn Church.*
- 14.9 Derbynyd cais am rhodd gan Pwyllgor Pobl Hŷn. Esboniodd Clerc y rheolau ynglŷn â rhoddion. Mwy o wybodaeth i'w cael / *Received a request for a donation from the Older People Committee. Clerk explained the rules regarding donations. Further information to be obtained.*

15. Dyddiad cyfarfod nesaf / Date of next meeting:

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Daeth y cyfarfod i ben 21:20. Cyfarfod nesaf ar 19/10/22 am 19:30 / *There was no further business to discuss. Meeting ended 21:20pm. Next meeting to be held on 19/10/22 at 19:30pm.*

Llofnod y Cadeirydd

Dyddiad